



2021

Cymraeg i Oedolion: Lefel Uwch



Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE (Cymdeithas i Brofwyr Ieithoedd yn Ewrop). www.alte.org



Defnyddio'r Gymraeg: Uwch 2021

Beth fydd ar gael yn 2021?

Fydd hi ddim yn bosibl sefyll yr ystod lawn o brofion o fewn y cymhwyster hwn yn 2021, oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, *bydd* hi'n bosibl i ymgeiswyr sefyll y prawf Siarad **ar-lein** a derbyn Datganiad Cyrhaeddiad, gan gynnwys y marc a ddyfarnwyd.

Pryd bydd hyn yn digwydd?

Mae'r prawf Siarad ar y dyddiad yma:

Dydd Iau 17 Mehefin 2021

Bydd eich canolfan arholi'n rhoi gwybod union amser eich prawf Siarad ymlaen llaw.

Erbyn pryd mae'n rhaid cofrestru?

Rhaid cofrestru erbyn 5 Mawrth 2021. Fydd cofrestriadau hwyr ddim yn cael eu derbyn.

Faint mae'r arholiad yn ei gostio?

Fydd dim ffi i ymgeiswyr sy wedi cofrestru ar gwrs 'Dysgu Cymraeg' yn 2021. Fodd bynnag, wrth gofrestru, dych chi'n ymrwymo i sefyll y prawf. Os dych chi'n ymgeisydd preifat, cysylltwch â'ch canolfan arholi i gael gwybodaeth am y ffi.

Sut ydw i'n cofrestru?

Rhaid i bob ymgeisydd gofrestru gyda eich darparwr Dysgu Cymraeg. Chi sy'n gyfrifol am hyn, nid eich tiwtor. Ni ellir cofrestru'n uniongyrchol gyda CBAC.

ystod lawn – full range

cymhwyster – qualification

argyfwng iechyd cyhoeddus – public health crisis

Datganiad Cyrhaeddiad – Statement of Attainment

a ddyfarnwyd – awarded

ymrwymo i – to commit to

ymgeisydd – candidate

Ni ellir cofrestru'n uniongyrchol – You cannot register directly

Beth sy'n digwydd yn y prawf Siarad?

Bydd pob prawf Siarad yn cael ei recordio ar lwyfan addysgu arferol eich darparwr (e.e. Zoom neu MS Teams). Bydd y recordiad yn cael ei anfon i CBAC a bydd yn cael ei asesu'n allanol. Peidiwch â chofrestru os nad ydych chi fodlon cael eich recordio yn y modd hwn.

Fel arfer, mae'r prawf yn para tua 30 munud. Cyn dechrau'r prawf, bydd rhaid i chi ddangos ID ffotograffig i'r cyfwelydd, er mwyn cadarnhau pwy ydych chi.

Cynnwys y prawf

Mae 4 rhan i'r prawf Siarad:

- i. Erthygl
- ii. Hunanbortread
- iii. Pwnc llosg
- iv. Siarad o brofiad

Bydd y trefnydd yn anfon Taflen yr Ymgeisydd atoch chi drwy ebost 60 munud cyn dechrau'r prawf er mwyn i chi baratoi. Bydd hawl gyda chi i ddefnyddio geiriadur yn ystod y cyfnod paratoi, ac i wneud nodiadau. Ddylech chi ddim ceisio sgriptio atebion.

Yn Rhan 2, bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi am eich hunanbortread. Rhaid i chi anfon hwn ymlaen llaw i'ch canolfan arholi ar ffurf Word neu pdf. Gallwch chi sôn am unrhyw agwedd ar eich cefndir, e.e. gwaith, unrhyw ddiddordeb/au penodol. Peidiwch ag ysgrifennu mwy na 300 o eiriau.

Dyddiad cau cyflwyno'r hunanbortread i'ch canolfan arholi yw: 2 Mehefin 2021

llwyfan addysgu arferol – usual teaching platform
darparwr – provider
asesu'n allanol – assessed externally
yn y modd hwn – in this way
cadarnhau – confirm
hawl – right
agwedd – aspect
cyflwyno – to submit

i. Erthygl

Byddwch chi'n cael erthygl i'w darllen yn y cyfnod paratoi. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi i brofi a ydych chi wedi deall prif bwyntiau'r erthygl.

ii. Hunanbortread

Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i chi am yr hunanbortread a anfonoch chi i mewn.

iii. Pwnc llosg

Bydd dewis o ddau bwnc llosg ar Daflen yr Ymgeisydd. Rhaid i chi drafod un o'r rhain gyda'r cyfwelydd gan bwysu a mesur dadleuon ar bob ochr.

iv. Siarad o brofiad

Bydd dewis o ddau sbardun ar Daflen yr Ymgeisydd yn holi am brofiadau penodol, gwahanol. Rhaid i chi siarad am un o'r rhain.

Bydd y marcwyr yn asesu eich gallu:

- i siarad yn gywir
- i siarad yn rhugl
- i amrywio cystrawennau a geirfa
- i ddeall pwyntiau allweddol mewn erthygl
- i bwysu a mesur dadleuon
- i estyn ymatebion
- i gyflawni gofynion y tasgau

pwnc llosg – burning topic

pwysu a mesur dadleuon – to weigh arguments

sbardun – prompt

profiadau penodol – specific experiences

amrywio cystrawennau a geirfa – to vary patterns and vocabulary

cyflawni gofynion – to fulfil requirements

Canlyniadau

Byddwch chi'n cael eich marc am y prawf Siarad tua wyth wythnos wedyn, ac yn derbyn Datganiad Cyrhaeddiad erbyn diwedd mis Medi. Mae'n bosib cael Rhagoriaeth neu Lwyddo (neu Fethu) yn y prawf hwn. I lwyddo, bydd rhaid i chi gael 60% o'r marciau posibl fel arfer. Mae'r union ffiniau'n cael eu penderfynu mewn cyfarfod dyfarnu.

Manyleb lawn a phapurau enghreifftiol

Braslun o'r arholiad sy yn y llyfryn hwn. Ceir y manylion llawn yn y fanyleb i diwtoriaid. Mae papurau enghreifftiol hefyd ar gael ar wefan CBAC ac enghreifftiau fideo o brofion Siarad, gw. www.cbac.co.uk dan 'Cymraeg i Oedolion Uwch.

Gwarchod Data

Os byddwch chi'n cofrestru i sefyll arholiad gyda'ch darparwr 'Dysgu Cymraeg', bydd gofyn i chi ddarparu peth data personol. Rhennir eich data cofrestru gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Anfonir peth o'r data hyn, sef enwau blaen, cyfenw, dyddiad geni a rhyw, gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i CBAC. Mae'n angenrheidiol rhannu eich data personol yn y modd hwn er mwyn eich galluogi i sefyll yr arholiad a derbyn dyfarniad. Mae gwybodaeth am sut mae CBAC yn prosesu eich data personol ar gael yma: www.cbac.co.uk dan Amdanom ni > Polisiâu>Gwarchod Data/Polisi Preifatrwydd. Byddwch ar ddeall na fydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu â CBAC a dylid cyfeirio unrhyw ymholiad sydd gennych mewn perthynas â'r arholiad i'ch canolfan arholi, h.y. eich darparwr 'Dysgu Cymraeg'.

datganiad cyrhaeddiad – statement of attainment

Rhagoriaeth – Distinction

union ffiniau – exact borderlines

braslun – outline

manyleb – specification

Gwarchod data – Data protection

trosglwyddo – to pass on/transfer

anghenion – requirements

canlyniadau – results

darparu – to provide

rhennir – are shared

galluogi – facilitate/enable

dyfarniad – award

manyion cyswllt – contact details

cyfeirio unrhyw ymholiad – direct any enquiry

Anghenion Arbennig

Os oes unrhyw anghenion arbennig gyda chi, a allai effeithio ar fynediad teg i'r arholiad, e.e. trafferthion clyw, golwg neu anghenion corfforol, rhaid rhoi gwybod i'r ganolfan arholi erbyn y dyddiad cau cofrestru. Mae gwybodaeth am yr addasiadau posib ar gael yn y ddogfen 'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol' ar wefan CBAC (yn Gymraeg) – www.cbac.co.uk.

Manylion Cyswllt

Mae manylion cyswllt eich darparwr Dysgu Cymraeg ar gael ar wefan y [Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#) (gw. 'Dewch o hyd i'ch darparwr lleol.')

anghenion arbennig – special requirements

mynediad teg – fair access

trafferthion clyw – hearing difficulties

golwg – vision

corfforol – physical

addasiadau – adjustments

Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol – Access Arrangements and Reasonable Adjustments